# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

31 Hydref 2016

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 17 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

> *Ar ba ddyddiad y cafodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bwerau dewisol i beidio ag ymchwilio i gwynion difrifol a wnaed yn erbyn corff cyhoeddus—cwynion a ategir gan dystiolaeth sylweddol?*

Sefydlwyd swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2006. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer dewisol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i gwynion (adran 2) ar faterion y gellir ymchwilio iddynt o dan y Ddeddf (adran 7). Mae'r Ddeddf ar gael yma: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/10/contents.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF